

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A458
(TREWERN, POWYS) (GWAHARDD
CERBYDAU, BEICWYR A CHERDDWYR DROS
DRO) 2022**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A458, neu gerllaw iddi, wrth bont rheilffordd Cefn, yn Nhrewern, Powys.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith), pob beiciwr a phob cerddwr rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A458 sy'n ymestyn o'r arwydd terfyn cyflymder 40 mya ym mhen gorllewinol Trewern, Powys hyd at bwynt 450 o fetrau i'r gorllewin o'r arwydd terfyn cyflymder 40 mya hwnnw.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gorllewin fydd mynd ar yr A458 tua'r dwyrain i gylchfan Churncote, yr A5 tua'r gogledd-orllewin i gylchfan Mile End a'r A483 tua'r de i ailymuno â'r A458 wrth gylchfan Tal-y-bont: i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r dwyrain.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 26 Medi 2022. Disgwylir y bydd y gwaharddiadau dros dro yn weithredol dros nos (o 19:00 o'r gloch tan 06:00 o'r gloch) o 26 Medi 2022 hyd 30 Medi 2022 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A458 TRUNK ROAD (TREWERN,
POWYS) (TEMPORARY PROHIBITION OF
VEHICLES, CYCLISTS & PEDESTRIANS)
ORDER 2022**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is required to undertake works on or near the A458 trunk road at Cefn railway bridge, Trewern, Powys.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services or for the works), cyclists and pedestrians from proceeding on the length of the A458 trunk road that extends from the 40 mph speed limit terminus at the western end of Trewern, Powys to a point 450 metres west of that 40 mph speed limit terminus.

The alternative route for westbound traffic is via the eastbound A458 to Churncote roundabout, north-westbound A5 to Mile End roundabout and southbound A483 to rejoin the A458 at Buttington Roundabout: vice versa for eastbound traffic.

The Order comes into force on 26 September 2022. The temporary prohibitions are expected to operate overnight (19:00 – 06:00 hours) from 26 – 30 September 2022 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work begins.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government